Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Adeiladu tai newydd: Ebrill 2024 i Fawrth 2025

Gwybodaeth am nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd, lle mae adeiladu wedi dechrau a rhai a gwblhawyd ar gyfer Ebrill 2024 i Fawrth 2025.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 21 Awst 2025

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 21 Awst 2025

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180196)

**Prif bwyntiau** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180198)

**Anheddau a ddechreuwyd yn ôl yr awdurdodau lleol** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180200)

**Anheddau a gwblhawyd yn ôl yr awdurdod lleol** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180202)

**Anheddau a gwblhawyd yn ôl deiliadaeth** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180204)

**Anheddau a gwblhawyd, yn ôl math o annedd ac ystafelloedd gwely** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180212)

**Anheddau a gwblhawyd ledled y DU** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180214)

**Y cyd-destun ehangach** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180216)

**Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180218)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180220)

# Cyflwyniad

Mae’r datganiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am weithgarwch adeiladu tai newydd yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol 2024-2025 ac effaith y gweithgarwch hwnnw ar y stoc anheddau. Ymdrinnir â’r anheddau newydd a ddechreuwyd (lle bo’r gwaith adeiladu wedi dechrau) ac â’r anheddau newydd a gwblhawyd (lle bo’r gwaith adeiladu wedi’i orffen a’r adeilad yn barod ar gyfer ei feddiannu). Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn defnyddio’r wybodaeth am y gwaith adeiladu tai newydd i asesu lefel y cyflenwad tai yng Nghymru.

Mae’r wybodaeth yn y datganiad hwn yn seiliedig ar adroddiadau arolygwyr adeiladu awdurdodau lleol a’r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC), sy’n Arolygydd Preifat Cymeradwy (PAI). Ni cheir yn y datganiad hwn wybodaeth gan PAIs eraill, sy’n debygol o arwain at dan gyfrif yng nghyfanswm yr anheddau newydd a ddechreuwyd ac a gwblhawyd.

## Y data

Nid oedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu darparu data ar gyfer Chwarter 2,3 a 4 o 2024-25 (Gorffennaf 2024 i Fawrth 2025). Nid oedd Gwynedd yn gallu darparu data ar gyfer Chwarter 4 o 2024-25 (Ionawr i Fawrth 2025). I gynhyrchu amcangyfrif ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Gwynedd am y flwyddyn ariannol gyfan, mae nifer y tai newydd a ddechreuwyd ac a gwblhawyd wedi eu priodoli. Gweler yr adran **cywirdeb** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#cywirdeb) yn y **wybodaeth am ansawdd a methodoleg** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180218) am ragor o fanylion.


# Prif bwyntiau

- Yn 2024-25, dechreuwyd adeiladu 3,798 o anheddau newydd, i lawr 26% ar

2023-24.

- Yn yr un cyfnod, cwblhawyd 4,631 o anheddau newydd, 3% yn llai nag yn y flwyddyn cynt.
- O'r 4,631 o anheddau a gwblhawyd, y sector preifat oedd yn gyfrifol am 73% ohonynt,  Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) am 23% ac awdurdodau lleol am 5%.
- Roedd 39% o'r anheddau a gwblhawyd yn gartrefi 3 stafell wely a 23% yn gartrefi â 4 stafell wely neu fwy.

## Ffigur 1: Nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd ac a gwblhawyd, 2015-16 i 2024-25




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart linell sy'n dangos bod gostyngiad cyffredinol wedi bod yn nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd a'u cwblhau yn ystod y cyfnod deng mlynedd diweddaraf.

Ffynhonnell: Arolygwyr adeiladu yr awdurdodau lleol a data'r NHBC

[Nodyn 1]: Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarter 4 ar gyfer Gwynedd. Gweler yr adran **cywirdeb** yn **gwybodaeth am ansawdd a methodoleg** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180218) am fanylion.

Nodyn 2] Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarteri 2, 3 a 4 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarter 4 ar

gyfer Gwynedd. Gweler yr adran **cywirdeb** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#cywirdeb) yn **gwybodaeth am ansawdd a methodoleg** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180218) am fanylion.


**Anheddau newydd a ddechreuwyd yn ôl cyfnod a deiliadaeth (StatsCymru)** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/New-House-Building/newdwellingsstarted-by-period-tenure)

**Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl cyfnod a deiliadaeth (StatsCymru)** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/New-House-Building/newdwellingscompleted-by-period-tenure)

## Anheddau a ddechreuwyd yn ôl yr awdurdodau lleol

Yn 2024-25, dechreuwyd 3,798 o anheddau newydd, 26% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Dyma'r nifer isaf o ddechrau anheddau newydd ar gofnod. Yn seiliedig ar amcangyfrifon stoc anheddau **Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024** (/amcangyfrifon-stoc-annedd), mae nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd yn 2024-25 yn cyfateb i oddeutu 3 annedd newydd fesul 1,000 o anheddau presennol.

## Ffigur 2: Nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd fesul 1,000 annedd presennol yn ôl yr awdurdod lleol, 2024-25 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 2: Map sy'n dangos bod nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd fesul 1,000 o anheddau presennol oedd fwyaf yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru.

Ffynhonnell: Arolygwyr adeiladu yr awdurdodau lleol a data’r NHBC ac Amcangyfrifon stoc anheddau Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarteri 2, 3 a 4 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarter 4 ar gyfer Gwynedd. Gweler adran **cywirdeb** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#cywirdeb) o **wybodaeth am ansawdd a methodoleg** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180218) am fanylion.

**Anheddau newydd a ddechreuwyd yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o annedd (StatsCymru)** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/New-House-Building/newdwellingsstarted-by-area-dwellingtype)

Ar lefel yr awdurdod lleol, amrywiai nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd o 43 yn Sir Ddinbych (sy'n cyfateb i 1 annedd newydd fesul 1,000 o anheddau presennol) i 412 yng Nghaerdydd (sy'n cyfateb i 3 annedd newydd fesul 1,000 o anheddau presennol).


Mae cyfradd o anheddau newydd a ddechreuwyd fesul 1,000 o anheddau presennol yn amrywio o 1 yn Gwynedd, Sir Ddinbych, Chastell-nedd Port Talbot a Phen y Bont (lle dechreuwyd llai na 100 o anheddau newydd) i 5 yng Nghasnewydd (lle dechreuwyd 356 o anheddau newydd).

## Anheddau a gwblhawyd yn ôl yr awdurdod lleol

Yn 2024-25, cwblhawyd 4,631 o anheddau newydd 3% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Dyma’r ail nifer isaf a gofnodwyd erioed, gyda’r nifer isaf wedi’i gofnodi yn 2021-22, blwyddyn yr effeithiwyd arni’n drwm gan y pandemig coronafeirws (COVID-19) (yn 2021-22, cwblhawyd 4,616 o anheddau newydd).

Yn ôl yr **Amcangyfrifon o'r stoc anheddau 2024** (/amcangyfrifon-stoc-annedd), mae nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn 2024-25 yn cyfateb i 3 annedd newydd fesul 1,000 annedd presennol.

## Ffigur 3: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd fesul 1,000 presennol yn ôl awdurdod lleol, 2024-25 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 3: Mae’r map yn dangos bod nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd fesul 1,000 annedd presennol ar ei uchaf yn y De-ddwyrain.

Ffynhonnell: Arolygwyr adeiladu yr awdurdodau lleol a data'r NHBC ac Amcangyfrifon stoc anheddau Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarteri 2, 3 a 4 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarter 4 ar gyfer Gwynedd. Gweler adran **cywirdeb** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#cywirdeb) o **wybodaeth am ansawdd a methodoleg** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180218) am fanylion.

**Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl ardal, y math o annedd a nifer yr ystafelloedd gwely (StatsCymru)** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/New-House-Building/newdwellingscompleted-by-area-dwellingtype-numberofbedrooms)

Ar lefel yr awdurdod lleol, amrywiai nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd o 67 yng Nghastell-nedd Port Talbot (sy'n cyfateb i 1 annedd newydd fesul 1,000 o anheddau presennol) i 605 yng Nghaerdydd (sy'n cyfateb i 4 annedd newydd fesul 1,000 o anheddau presennol).

Mae'r cyfradd o anheddau newydd a gwblhawyd fesul 1,000 o anheddau presennol yn amrywio o 1 yng Nghonwy, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr (gyda llai na 100 o anheddau newydd wedi'u cwblhau) i 8 yng Nghasnewydd (lle  cwblhawyd 534 o anheddau newydd).

# Anheddau a gwblhawyd yn ôl deiliadaeth

Nid yw'n bosib bob tro i swyddogion rheoli adeiladau na'r NHBC allu dweud beth fydd deiliadaeth cartref yn y pen draw. Bryd hynny, mae'n debygol y caiff ei chofnodi fel deiliadaeth breifat, a allai o bosib arwain at or gyfrif yr anheddau yn y sector preifat a than gyfrif yr anheddau yn y sector cymdeithasol. Am hynny, dylid gochel dadansoddiadau o'r ddeiliadaeth.

Yn 2024-25, y sector preifat (73%) oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r anheddau newydd a gwblhawyd, gyda'r sector cymdeithasol yn cyfrif am gyfran llai (27%). Roedd cyfran yr anheddau a gwblhawyd gan y sector cymdeithasol yn uwch na'r flwyddyn cynt (22%). Yn 2024-25, roedd yr awdurdodau lleol yn

gyfrifol am 213 o anheddau newydd a gwblhawyd (5% o’r cyfanswm a gwblhawyd).

## Tabl 1: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl yr awdurdod lleol a deiliadaeth, 2024-25

| Awdurdod lleol | Sector preifat | RSL | Awdurdod lleol | Pob deiliad-aeth |
|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 65 | 5 | 0 | 70 |
| **Gwynedd [Nodyn 1]** | 157 | 0 | 0 | 157 |
| **Conwy** | 66 | 8 | 0 | 74 |
| **Sir Ddinbych** | 111 | 2 | 12 | 125 |
| **Sir y Fflint** | 134 | 175 | 0 | 309 |
| **Wrecsam** | 135 | 23 | 19 | 177 |
| **Powys** | 99 | 70 | 0 | 169 |
| **Ceredigion** | 120 | 0 | 0 | 120 |
| **Sir Benfro** | 110 | 13 | 4 | 127 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 154 | 0 | 20 | 174 |
| **Abertawe** | 207 | 59 | 0 | 266 |
| **C-nedd Port Talbot** | 59 | 6 | 2 | 67 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr [Nodyn** | 85 | 0 | 0 | 85 |

| Awdurdod lleol | Sector preifat | RSL | Awdurdod lleol | Pob deiliad-aeth |
|---|---|---|---|---|
| **2]** | | | | |
| **Bro Morgannwg** | 206 | 122 | 124 | 452 |
| **Caerdydd** | 513 | 92 | 0 | 605 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 262 | 18 | 0 | 280 |
| **Merthyr Tudful** | 46 | 46 | 0 | 92 |
| **Caerffili** | 160 | 77 | 0 | 237 |
| **Blaenau Gwent** | 60 | 36 | 0 | 96 |
| **Tor-faen** | 75 | 29 | 0 | 104 |
| **Sir Fynwy** | 193 | 86 | 32 | 311 |
| **Casnewydd** | 344 | 190 | 0 | 534 |
| **Cymru** | 3,361 | 1,057 | 213 | 4,631 |

Disgrifiad o Dabl 1: Tabl o'r anheddau newydd a gwblhawyd, yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth, sy'n dangos bod o leiaf hanner yr holl gwblhawyd anheddau newydd wedi'u cwblhau gan y sector preifat mewn 20 o'r 22 awdurdod lleol.

Ffynhonnell: Arolygwyr adeiladu yr awdurdodau lleol a data'r NHBC

[Nodyn 1] Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarter 4. Gweler yr adran **cywirdeb** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#cywirdeb) yn **Gwybodaeth am Ansawdd a methodoleg** (https://www.llyw.cymru/pdf-

optimised/node/70342#180218) am fanylion.

[Nodyn 2] Yn cynnwys data amcangyfrifedig ar gyfer Chwarteri 2, 3 a 4. Gweler adran **cywirdeb** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#cywirdeb) o **wybodaeth am Ansawdd a methodoleg** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/70342#180218) am fanylion.

**Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl ardal, y math o annedd a nifer yr ystafelloedd gwely (StatsCymru)** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/New-House-Building/newdwellingscompleted-by-area-dwellingtype-numberofbedrooms)

Ar lefel yr awdurdod lleol, amrywiai canran yr anheddau newydd a gwblhawyd yr oedd y sector preifat yn gyfrifol amdanynt o 43% yn Sir y Fflint (lle cyfrifwyd 134 o'r 309 o gwblhaeddau gan y sector preifat) i 100% ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion a Gwynedd (lle roedd yr holl gwblhawyd (85, 120 a 157 yn y drefn honno) yn cael eu cyfrif gan y sector preifat).

Yn y sector cymdeithasol, gwelwyd y nifer fwyaf a gwblhawyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Nghasnewydd, Sir y Fflint a Bro Morgannwg (190, 175 a 122 o gwblhawyd RSL yn y drefn honno). Roedd y rhan fwyaf o gwblhaeniadau awdurdodau lleol yn cael eu cyfrif gan Bro Morgannwg (gyda 124 o gwblhawyd awdurdodau lleol, sy'n cyfrif am 58% o'r holl gwblhaeniadau awdurdodau lleol).

# Anheddau a gwblhawyd, yn ôl math o annedd ac ystafelloedd gwely

Yn 2024-25, roedd y rhan fwyaf o’r anheddau newydd a gwblhawyd yn dai neu fyngalos (81%), gyda chyfran llai yn fflatiau (19%). Ers 2015-16, mae cyfran yr anheddau a gwblhawyd oedd yn dai neu fyngalos wedi amrywio o 73% i 82%.

Yn y flwyddyn ddiweddaraf, roedd 39% o’r anheddau newydd a gwblhawyd yn gartrefi 3 ystafell wely a 23% yn gartrefi 4 ystafell wely neu fwy. Mae dosraniad yr anheddau yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely wedi aros yn gymharol sefydlog dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Mae'r sector preifat fel arfer wedi canolbwyntio ar ddarparu cartrefi mwy (yn 2024-25, roedd 75% o'r anheddau'r sector preifat a gwblhawyd â 3 ystafell wely neu fwy) ac mae'r sector cymdeithasol wedi canolbwyntio ar ddarparu cartrefi llai (yn yr un flwyddyn, dim ond 1 neu 2 ystafell wely oedd yn 72% o'r anheddau a gwblhawyd gan y sector cymdeithasol).

## Anheddau a gwblhawyd ledled y DU

Rhwng 2015-16 a 2019-20, bu cynnydd cyffredinol mewn gweithgarwch adeiladu tai newydd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, tra bod Cymru yn gyffredinol yn sylwi ar ostyngiad cyson. Yn 2020-21, adeiladwyd llai o dai newydd wrth i bandemig y coronofeirws (COVID-19) daro'r diwydiant adeiladu. Yn 2021-22 a 2022-23, gwelwyd cynnydd yn y gweithgarwch adeiladu tai newydd dros y DU (ag eithriad Gogledd Iwerddon), gan gyrraedd lefelau tebyg i'r rheini cyn y pandemig. Yn 2023-24, a 2024-25, bu gostyngiad yn nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gyda Gogledd Iwerddon yr unig genedl i sylwi ar gynnydd yn y flwyddyn ddiweddaraf.

### Tabl 2: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl gwlad a'r blwyddyn, 2015-16 i 2024-25

| Blwyddyn ariannol | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **2015-16** | 139,710 | 6,900 | 16,960 | 5,810 |
| **2016-17** | 147,520 | 6,830 | 17,220 | 6,460 |
| **2017-18** | 160,910 | 6,660 | 17,560 | 7,100 |
| **2018-19** | 169,060 | 5,780 | 21,230 | 7,810 |
| **2019-20** | 175,330 | 6,040 | 22,220 | 7,310 |

| Blwyddyn ariannol | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **2020-21** | 154,660 | 4,620 | 15,880 | 6,440 |
| **2021-22** | 171,240 | 5,270 | 21,430 (r) | 7,280 |
| **2022-23** | 174,840 | 5,790 | 23,860 (r) | 6,410 |
| **2023-24** | 160,390 (r) | 4,770 | 20,030 (r) | 5,410 (r) |
| **2024-25** | 152,100 (p) | 4,630 | 19,290 | 6,130 |

Disgrifiad o Dabl 2: Tabl yn dangos bod nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn amrywio yn ôl gwlad rhwng 2015-16 a 2024-25. Disgrifir y duedd yn y testun uchod.

(p) Mae’r data yn rhai dros dro ac yn amodol i ddiwygiad.

(r) Mae'r eitem ddata hon wedi'u diwygio.

## Ffynhonnell yn ôl gwlad

### Lloegr

Ffurflenni adeiladu newydd awdurdodau lleol, data’r NHBC a data arolygwyr cymeradwy.

**Adeiladu tai newydd yn Lloegr (Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau)** (https://www.gov.uk/government/collections/house-building-statistics)

## Cymru

Arolygwyr adeiladu yr awdurdodau lleol a data'r NHBC.

**Adeiladu tai newydd (Llywodraeth Cymru)** (/adeiladu-tai-newydd)

## Yr Alban

Ffurflenni adeiladu newydd awdurdodau lleol a Rhaglen Cyflenwad Tai Fforddiadwy Llywodraeth yr Alban.


**Adeiladu tai newydd yn yr Alban (Llywodraeth yr Alban)** (https://www.gov.scot/publications/housing-statistics-for-scotland-new-house-building/)

## Gogledd Iwerddon

Adrannau Rheoli Adeiladu'r Cynghorau Dosbarth.

**Adeiladu tai newydd yng Ngogledd Iwerddon (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon)** (https://www.nisra.gov.uk/statistics/housing-community-and-regeneration/housing-statistics)

## Ffigur 4: Nifer wedi'i fynegeio o anheddau newydd a gwblhawyd ledled y DU (2015-16 = 100) [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart linell sy'n dangos sut mae niferoedd y tai adeiladwyd yng ngwledydd y DU wedi amrywio ers 2015-16. Disgrifir y duedd isod.

### Ffynhonnell yn ôl gwlad

#### Lloegr

Ffurflenni adeiladu newydd awdurdodau lleol, data'r NHBC a data arolygwyr cymeradwy.

**Adeiladu tai newydd yn Lloegr (Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau)** (https://www.gov.uk/government/collections/house-building-statistics)

#### Cymru

Arolygwyr adeiladu yr awdurdodau lleol a data'r NHBC.

**Adeiladu tai newydd (Llywodraeth Cymru)** (/adeiladu-tai-newydd)

### Yr Alban

Ffurflenni adeiladu newydd awdurdodau lleol a Rhaglen Cyflenwad Tai Fforddiadwy Llywodraeth yr Alban

**Adeiladu tai newydd yn yr Alban (Llywodraeth yr Alban)** (https://www.gov.scot/publications/housing-statistics-for-scotland-new-house-building/)

### Gogledd Iwerddon

Adrannau Rheoli Adeiladu'r Cynghorau Dosbarth.

**Adeiladu tai newydd yng Ngogledd Iwerddon (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon)** (https://www.nisra.gov.uk/statistics/housing-community-and-regeneration/housing-statistics)

[Nodyn 1] Mae gwir nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn amrywio'n fawr. Mae'r data yn y siart wedi'u mynegeio, gyda 2015-16 yn cael ei defnyddio fel blwyddyn sylfaen ac wedi'i gosod ar 100, er mwyn sicrhau bod modd cymharu graddfa.

Mae Ffigur 4 yn tynnu sylw at amrywiadau mewn gweithgarwch adeiladu tai newydd ledled y DU, gyda gweithgarwch yn gostwng ar draws pob cenedl yn 2020-21 wrth i effeithiau'r pandemig ddod i'r amlwg. Yn ystod y cyfnod deng mlynedd diweddaraf, bu cynnydd cyffredinol yn nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gyda gweithgarwch yn cyrraedd uchafbwynt yn y ddwy flynedd cyn y pandemig a'r ddwy flynedd ar ôl y pandemig. Yng Nghymru, dangosir bod gweithgarwch adeiladu tai newydd yn gostwng yn gyson dros y cyfnod o ddeng mlynedd.

## Y cyd-destun ehangach

Mae **Amcangyfrifon stoc anheddau Llywodraeth Cymru** (/amcangyfrifon-stoc-

annedd) yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad, ochr yn ochr â **data adeiladu tai newydd** (/adeiladu-tai-newydd) a **dymchwel tai** (/tai-gafodd-eu-dymchwel). Gweler **amcangyfrifon stoc anheddau: ar 31 Mawrth 2024** (/amcangyfrifon-stoc-annedd-ar-31-mawrth-2024) am ragor o wybodaeth am ragor o wybodaeth am sut y cynhyrchodd yr amcangyfrifon hyn.

Mae'r **Amcangyfrif o'r stoc anheddau** (/amcangyfrifon-stoc-annedd-ar-31-mawrth-2024) yn dangos, ar 31 Mawrth 2024, yr amcangyfrifir bod 1.5 miliwn o anheddau yng Nghymru, 5% yn fwy nag ym mis Mawrth 2015. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae canran rhaniad yr anheddau rhwng y sector preifat a'r sector cymdeithasol wedi aros yn sefydlog (gydag 84% o'r anheddau yn y sector preifat a'r 16% sy'n weddill yn perthyn i'r sector cymdeithasol). Ar 31 Mawrth 2024, amcangyfrifir bod 70% o'r stoc yn cael ei gyfrif gan berchen-feddianwyr, 14% gan rentwyr preifat, 10% gan RSLs a 6% gan awdurdodau lleol.

Yn 2020, cyhoeddwyd diweddariad o'r **Amcangyfrifon o'r angen am dai** (/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-sail-2019). Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhoi ystod i ni o'r angen am unedau tai ychwanegol, ar sail tueddiadau'r gorffennol a'r data gorau sydd ar gael. Nid ydynt yn dargedau. Disgwylir cyhoeddi diweddariad o'r amcangyfrifon yn 2024. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi amcangyfrifon wedi'u diweddaru o'r angen am dai ychwanegol, yn seiliedig ar ddiweddariad yn amcanestyniadau aelwydydd, erbyn diwedd 2025.

Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir trwy waith adeiladu newydd, prynu, caffael, lesio neu gadwraeth yn cael eu cyhoeddi yn y datganiad blynyddol **Darpariaeth tai fforddiadwy** (/darpariaeth-tai-fforddiadwy).

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

## Cywirdeb

Nid oedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu darparu data ar gyfer Chwarteri 2, 3 a 4 o 2024-25 (Gorffennaf 2024 i Fawrth 2025). Defnyddiwyd data a ddarparwyd gan

Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer Chwarter 1 o 2024-25 ar gyfer Chwarteri 2, 3 a 4.

Nid oedd Gwynedd yn gallu darparu data ar gyfer Chwarter 4 o 2024-25 (Ionawr i Fawrth 2025). Mae'r data a ddarparwyd ar gyfer Chwarter 1 i Chwarter 3 o 2024-25 ar gyfer Gwynedd wedi'i gyfartaledd a'i ddefnyddio ar gyfer Chwarter 4.

## Statws Ystadegau Swyddogol

Dylai'r holl ystadegau swyddogol ddangos safonau'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau (Awdurdod Ystadegau yn y DU)** (https://code.statisticsauthority.gov.uk/).

Ystadegau swyddogol achrededig yw'r rhain, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Cawsant eu hadolygu'n annibynnol gan yr OSR ym mis Tachwedd 2012. Maent yn cydymffurfio â'r safonau o ddibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu a yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei ddiddymu unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a gellir ei ddyfarnu unwaith eto pan fodlonir y safonau.

Gelwir ystadegau swyddogol achrededig yn Ystadegau Gwladol yn Neddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Mae ein harfer ystadegol yn cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae OSR yn gosod y safonau o ddibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai pob cynhyrchydd ystadegau swyddogol gadw atynt.

Cynhyrchir a chyhoeddir ein holl ystadegau yn unol â nifer o ddatganiadau a

phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Mae’r rhain wedi’u nodi yn **Natganiad Cydymffurfiaeth** (https://www.llyw.cymru/ynghylch-ystadegau-ac-ymchwil#Datganiadcydymffurfiaeth) y Llywodraeth Cymru.

Mae'r **ystadegau swyddogol achrededig (OSR)** (https://osr.statisticsauthority.gov.uk/policies/official-statistics-policies/accredited-official-statistics-policy/) hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

Dibynadwyedd: rydym wedi sicrhau bod yr ystadegau hyn ar gael mewn modd amserol i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Rydym wedi dilyn protocolau perthnasol ar gyfer rhyddhau'r ystadegau hyn, gan sicrhau bod cylchrediad cyn cyhoeddi wedi'i gyfyngu i dderbynwyr cymwys yn unig.

Ansawdd: rydym wedi gwneud cyfyngiadau’r data hwn yn glir i ddefnyddwyr (er enghraifft, gan amlygu nad yw gweithgarwch adeiladu gan rai PAI yn cael ei gofnodi, gan arwain at dangyfrif bach o adeiladau newydd a gwblhawyd a rhai sy’n cael eu dechrau). Rydym yn bwriadu cyhoeddi erthygl yn ddiweddarach yn 2025-6 yn archwilio dichonoldeb defnyddio data gweinyddol i ategu ystadegau cyflenwad tai a sicrhau ansawdd.

Gwerth: rydym wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr ystadegau hyn yn hygyrch i ddefnyddwyr, gan ddefnyddio iaith glir a chryno. Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar sut y gallwn wella gwerth yr ystadegau hyn.

Mae croeso i chi gysylltu â ni'n uniongyrchol gydag unrhyw sylwadau am sut rydym yn bodloni'r safonau hyn. Fel arall, gallwch gysylltu ag OSR drwy anfon e-bost at regulation@statistics.gov.uk neu drwy wefan yr OSR.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf,

rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol  hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru** (/llesiant-cymru).

Mae’r datganiad yn cynnwys un dangosydd cyd-destunol, sef ‘(31) Canran yr anheddau sydd heb beryglon’. Cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad llesiant yn y ddolen flaenorol.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** (/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau).

Gallai’r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu’r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â’u hasesiadau llesiant a’u cynlluniau llesiant lleol.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Holly Flynn
E-bost: **ystadegau.tai@llyw.cymru** (mailto:ystadegau.tai@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.